Gweddi Agoriadol

Ysbryd Glân,
Rwyt ti ar waith ym mhob oes ac ym mhob lle
Helpa ni i synhwyro dy bresenoldeb yma nawr
Rwyt ti yn Ysbryd sy'n cyffroi ac yn creu
Helpa ni i synhwyro dy bresenoldeb yma nawr
Rwyt ti yn Ysbryd sydd am ein puro a'n perffeitho
Helpa ni i synhwyro dy bresenoldeb yma nawr
Rwyt ti yn Ysbryd sydd am ein harfogi a'n hyderu
Helpa ni i synhwyro dy bresenoldeb yma nawr
Rwyt ti yn Ysbryd sy'n ein huno a'n harwain
Helpa ni i synhwyro dy bresenoldeb yma nawr.
Amen.

Darlleniad 1:Salm 103 1-5

1 Diolchwch i'r ARGLWYDD, a galw ar ei enw!

Dwedwch wrth bawb beth mae wedi ei wneud.

2 Canwch iddo, a defnyddio cerddoriaeth i'w foli!

Dwedwch am y pethau rhyfeddol mae'n eu gwneud.

3 Broliwch ei enw sanctaidd!

Boed i bawb sy'n ceisio'r ARGLWYDD ddathlu.

4 Dewch at yr ARGLWYDD, profwch ei nerth;

ceisiwch ei gwmni bob amser.

5 Cofiwch y pethau rhyfeddol a wnaeth —

ei wyrthiau, a'r cwbl y gwnaeth ei farnu!

Darlleniad 2: Actau: 2 1-11
Yr Ysbryd Glân yn dod ar y Pentecost

Ar ddiwrnod dathlu Gŵyl y Pentecost roedd pawb gyda'i gilydd eto. Ac yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n cyfarfod. Ac wedyn roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau tân yn dod i lawr ac yn gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw. Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill. Yr Ysbryd oedd yn eu galluogi nhw i wneud hynny. Bryd hynny roedd Iddewon crefyddol o wahanol wledydd wedi dod i aros yn Jerwsalem. Clywon nhw'r sŵn hefyd, ac roedd tyrfa fawr wedi casglu at ei gilydd i weld beth oedd yn digwydd. Roedden nhw wedi drysu, am fod pob un ohonyn nhw yn clywed ei iaith ei hun yn cael ei siarad. 7 Roedd y peth yn syfrdanol! "Onid o Galilea mae'r bobl yma'n dod?" medden nhw."Sut maen nhw'n gallu siarad ein hieithoedd ni?" (Roedd Parthiaid yno, a Mediaid, Elamitiaid, pobl o Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, Phrygia, Pamffilia, yr Aifft, a'r rhan o Libia sydd wrth ymyl Cyrene; pobl oedd ar ymweliad o Rufain – rhai yn Iddewon ac eraill yn bobl oedd wedi troi at y grefydd Iddewig – a hefyd Cretiaid ac Arabiaid) "Maen nhw'n siarad ein hieithoedd ni, ac yn dweud am y pethau rhyfeddol mae Duw wedi'u gwneud!"